*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 54A(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2014 Rhif xxxx (Cy. xxx)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

# Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gwneir y Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, o dan adran 54A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae'r adran honno yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn sy'n gohirio'r dyddiad y dylai'r rhestrau ardrethu annomestig newydd (h.y. y rhestrau lleol a'r rhestr ganolog) yng Nghymru gael eu gwneud, o 1 Ebrill 2015 i 1 Ebrill yn 2016, 2017, 2018, 2019 neu 2020. Mae'r adran honno hefyd yn sicrhau ei bod yn ofynnol wedyn gwneud rhestrau newydd bob pum mlynedd wedi hynny.

Y dyddiad a bennwyd yn y Gorchymyn ar gyfer gwneud y rhestrau yw 1 Ebrill 2017.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 54 A(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2014 Rhif xxxx (Cy. xxx)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014

*Gwnaed* *2014*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(1)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 54A(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (**1**).

Yn unol ag adran 143(3C)(**2**) o’r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 a daw i rym 14 o ddiwrnodau wedi'r dyddiad y'i gwneir.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1988 p.41. Mewnosodwyd adran 54A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 30 o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p.27).

(**2**) Mewnosodwyd adran 143(3C) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 30(4) o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013.

**Gohirio gwneud rhestrau ardrethu: dyddiad penodedig**

**2.** At ddibenion adran 54A (gohirio gwneud rhestrau Cymreig ar gyfer 2015 ymlaen) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, y dyddiad penodedig yw 1 Ebrill 2017 .

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad